Y TÎM O AMGYLCH Y TEULU

Taflen ffeithiau i weithwyr proffesiynol

Beth yw'r Tîm o Amgylch y Teulu?

Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu (y Tîm) yn wasanaeth i deuluoedd sy'n dymuno gwneud newidiadau cadarnhaol i fywyd y teulu, ond sydd angen cymorth i wneud y newidiadau hynny.

Yn ôl ymchwil, pan fydd teuluoedd yn penderfynu eu hunain pa newidiadau cadarnhaol yr hoffent eu gwneud ac yn cael cymorth i wneud y newidiadau hynny, mae'r canlyniadau hirdymor i fywyd eu plant yn fwy sylweddol ac yn fwy cynaliadwy.

Nid yw'r Tîm o Amgylch y Teulu yn wasanaeth cyffredinol. Mae'n gweithredu ar Haen 2 ac felly nid yw ar gael i deuluoedd sy'n cael lefel uwch o ymyrraeth.

Tim o Amgylch y Teulu

Beth mae gweithiwr y Tîm yn ei wneud?

Bydd gweithiwr y Tîm yn:

- Gweithio gyda'r teulu i edrych ar y newidiadau cadarnhaol yr hoffent eu gwneud i wella bywyd y teulu.
- Cytuno ar gynllun gweithredu, sy'n disgrifio sut bydd y teulu'n cyflawni'r newidiadau hyn a phwy fydd yn gyfrifol am bob cam gweithredu.
- Helpu'r teulu i deimlo'n fwy hyderus, fel y gallant gynnal y newidiadau hyn yn y dyfodol heb yr angen am gymorth gweithwyr y Tîm.
- Cyfeirio'r teulu at wasanaethau cymorth eraill a allai hefyd eu helpu i weithio ar eu cynllun.
- Gwneud i'r teulu deimlo'n gyfforddus am ddefnyddio'r gwasanaeth eto os byddant yn cael problemau yn y dyfodol.

Sut ydw i'n cyfeirio teulu?

- Cysylltwch â'r Tîm o Amgylch y Teulu i gael copi o'r ffurflen gyfeirio neu lawrlwytho ffurflenni o www.pembrokeshire.gov.uk/taf
- Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau am y wybodaeth sydd ei hangen neu sut i lenwi'r ffurflen gyfeirio. Cofiwch, mae'n RHAID i chi gael caniatâd wedi'i lofnodi gan y teulu.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn:

- Rhoi gwybod i chi pan fyddwn wedi cael manylion cyfeirio oddi wrthych, pan fydd gweithiwr y Tîm wedi'i ddyrannu i'r teulu a phan nad yw'r teulu'n manteisio ar y gwasanaeth.
- Rhoi diweddariadau rheolaidd i chi drwy gydol ein hymyrraeth gyda'r teulu.
- Rhoi copi i chi o'r gwaith a gwblhawyd gan y teulu pan fyddant wedi gorffen defnyddio'r gwasanaeth.
- Derbyn bod teuluoedd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth yn wirfoddol a'u bod yn gallu dod â chymorth y Tîm i ben unrhyw bryd.

Cysylltu â ni

Y Tîm o Amgylch y Teulu
Canolfan Dechrau'n Deg,
Cross Park, Pennar,
Doc Penfro SA72 6SW

Ffôn: (01437) 770023

www.pembrokeshire.gov.uk/taf